

Portffolio Celfyddydol Cymru

Llawlyfr



Cwmniau Cynhyrchu

Ionawr 2019

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Targedau cyffredin i bawb	3
3	Eich swyddogaeth yn gwmni cenedlaethol	13
4	Monitro perfformiad: y sylfeini	14
5	Rhaid inni siarad	17
6	Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym	18



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn [Bolisi Cyfle Cyfartal](#).

1

Cyflwyniad

Croeso


Rhennir eich Cytundeb Ariannu yn ddwy adran:

Eich targedau

Disgrifir y targedau penodol y cytunasoch â ni yn eu cylch mewn dogfen grynhoi ar wahân. Gofynnwn ichi fonitro eich cynnydd yn ôl y targedau hyn a thrafod eich perfformiad yng nghyfarfodydd rheolaidd eich Bwrdd drwy'r flwyddyn.

Y Llawlyfr hwn

Disgrifia'r Llawlyfr ein disgwyliadau ehangach ochr yn ochr â nifer o dargedau cyffredin i bob aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru. Disgrifia'r Llawlyfr hefyd sut y gweithiwn gyda chi drwy'r flwyddyn, sut y monitro eich gwaith a pha wasanaethau y gellwch eu disgwyl yn gyfnewid.



Rydym am i'r Cytundeb Ariannu fod yn ddogfen weithiol: arf defnyddiol i fapio eich cynnydd ac un gyrchfan ganolog i nodi holl wybodaeth allweddol angenrheidiol ein perthynas gyda chi.

Cewch wybodaeth am yr holl faterion perthnasol yn y Llawlyfr hwn.

Sefydlir ein perthynas gyda chi yn ystod y flwyddyn ar gyfres reolaidd o drafodion busnes. Mae'r rhain yn fodd inni wybod am eich cynnydd parhaus a chael y wybodaeth angenrheidiol oddi wrthy ch ar wahanol adegau drwy'r flwyddyn.

Byddwch eisoes yn gyfarwydd ag [Er budd pawb... - Ein Cynllun Corfforaethol 2018 - 2023](#). Disgrifia ein huchelgais ar gyfer celfyddydau Cymru a blaenoriaethau ein Cyngor.

Rhaid inni hefyd arddangos sut y cydwedda'r gwaith â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae gan rai o'r blaenoriaethau oblygiadau i'r sefydliadau a ariannwn. Gallwch weld copi o [Lythyr Cylch Gwaith y Llywodraeth](#) ar ein gwefan.

Peidiwch â mynd i banig!

Mae llawer iawn o wybodaeth yma i'w phrosesu. Ond ar ôl darllen drwyddo, hyderwn y bydd yn llai o fraw nag yr oedd ar y wedd gyntaf. Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth am bolisïau'n gyfarwydd iawn ichi – naill ai oherwydd eich bod yn glynu ati beth bynnag neu inni ei thrafod yn ein cyfarfodydd arferol.

Ac i gloi

Gwyddom, hyd yn oed gyda'r ewyllys gorau yn y byd, nad yw cynlluniau bob tro'n llwyddo fel y dylent. A phan fo pethau'n mynd o'u lle, gall y Cytundeb Ariannu fod yn fan cychwyn defnyddiol i drafod ffyrdd eraill o gael y maen i'r wal.

Felly os gwelwch na fydd rhai targedau ar annel yn ystod y flwyddyn, cysylltwch â'ch Swyddog Arweiniol fel y gallwn gydweithio â chi i ddarganfod y rhesymau am hyn.

Weithiau gallwn gynnig cyngor a chefnogaeth a chydweithio â chi i oresgyn yr her. Nac anghofier – ar ddiwedd y dydd, rydym am ichi lwyddo, felly rydym yma i'ch helpu.

“Mae ‘Er Budd Pawb’ yn nodi trobwynt pwysig.

Mae’n adlewyrchu ein cred y bydd Cymru yn gryfach yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol os yw rhagor o bobl yn mwynhau’r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae pobl yn profi’r celfyddydau mewn ffyrdd gwahanol. Rydym am ddatlu amrywiaeth a chyfoeth eu diwylliant, eu huchelgais a’u dychymyg creadigol.

Mewn geiriau eraill, hoffem ehangu ein ffyrdd o weithio a’r math o bobl y gweithiwn gyda hwy.”

2

Targedau cyffredin i bawb

Mae'r sefydliadau gorau'n gwerthuso effeithiolrwydd yr hyn a wnânt yn barhaus gan chwilio am ffyrdd newydd o wella eu perfformiad.



Cyhoeddasom [Ymdrechu i Ragori: fframwaith ansawdd](#). Porthwyd hwn gan flynyddoedd lawer o arsylwi a dadansoddi ymddygiad ein sefydliadau gorau. Disgrifia Ymdrechu i Ragori briodoleddau a nodweddion llwyddiant.

Rydych yn rhan o [Bortffolio Celfyddydol Cymru](#) oherwydd y credwn fod gennych y weledigaeth, y sgiliau a'r gallu i chwarae rôl arweiniol wrth ddatblygu Celfyddydau Cymru. Yn gyfnewid, disgwylwn ichi ddangos parodrwydd i ddiwallu'r ymrwymedigaethau elfennol y credwn gymaint yn eu pwysigrwydd.

Ymrwymiad i ansawdd ...

Wrth wraidd pob sefydliad sy'n perfformio'n dda yw'r wreichionen greadigol – y gwirioni ar gelf sy'n bwydo'r weledigaeth artistig a'r hwb i wella. Dibynna creu'n llwyddiannus ar arweinyddiaeth artistig a gweledigaeth sy'n mynd ymhellach na chyffredinedd pob dydd.

Yn ein barn, bydd sefydliad celfyddydol hyderus ac effeithiol yn gwneud y canlynol:

- coleddu hunanasesiad gonest a thrylwyr o'i waith
- bod yn ddewr a mentro
- meddu ar weledigaeth glir o'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni
- ceisio adborth ac adolygiadau beirniadol i weld pa mor dda y gwna ei waith
- defnyddia'r wybodaeth hon i lywio a phorthi gweithgarwch y dyfodol
- bod yn arweinydd ymhlith ei gydweithwyr ond bod yn ddigon hyblyg i adeiladu partneriaethau creadigol sy'n darparu budd i'r cyhoedd ac i'r sefydliad ei hun
- cysylltu'n gryf â'i gynulleidfa a'r gymuned sydd o ddiddordeb yn ei waith
- ceisio ehangu ei gyrraedd a goresgyn unrhyw rwystrau i fod yn gynhwysol ac amrywiol wrth gyflwyno ei waith ac o ran y gynulleidfa a'r ymgyfranogwyr i'w waith

Ymrwymiad i gyrraedd

Rydym am i gynifer o bobl â phosibl brofi a mwynhau'r celfyddydau. Mae Er Budd Pawb yn tynnu sylw at yr angen i dorri cwysi newydd o ran cynwysoldeb ac amrywiaeth yn y celfyddydau. Rydym am i ragor o bobl gymryd rhan weithredol yn y celfyddydau yn gyffredinol a hefyd yn y sefydliadau a ariannwn. Bydd cryfder a dyfnder yr ymgysylltu hwn – a'r buddion y mae'n eu darparu – yn chwarae rhan bwysig yng nghynaliadwyedd gweithgareddau sefydliad.

“Mae sefydliad sydd â dealltwriaeth glir o'i gymuned ac sydd â gwreiddiau cryfion a chadarn yn y gymuned honno'n fwy tebygol o fod yn hirbarhaus a gwydn.”

Yn ein barn, bydd sefydliad celfyddydol hyderus ac effeithiol yn gwneud y canlynol:

- arddangos dealltwriaeth glir o'i gymuned ei hun
- gallu esbonio buddion gweithgareddau'r sefydliad a'u cyfraniad at lesiant cymunedol
- bod wedi nodi a dadansoddi'r rhwystrau i ymgysylltu
- gosod targedau penodol er creu newid

Ymrwymiad i gydraddoldeb

Mae cydraddoldeb wrth wraidd ein gwaith.

Mae cymdeithas deg a goddefgar yn gwerthfawrogi a pharchu anghenion, diddordebau a chreadigrwydd pawb. Mae'n gymdeithas sy'n ddiamynedd gydag anfantais a choledda gydraddoldeb ac a ddatla wahaniaeth. Rydym am i gelfyddydau Cymru gynnwys pawb. Gwyddom wedyn y bydd celfyddydau Cymru yn fwy bywiog, cyffrous a pherthnasol.

Felly ystyriwn gydraddoldebau ymhob agwedd ar ein gwaith a phob un o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth.

“Rhaid i ni newid meddyliau a chalonnau ar draws y celfyddydau yng Nghymru er mwyn i’r manteision diwylliannol, moesol a chymdeithasol - sy’n dod yn sgil cofleidio cydraddoldeb o ran cyfle - gael mwy o flaenoriaeth yn y ffyrdd yr ydym ni’n trefnu ein busnes.

Y tu hwnt i gwestiynau am gyfiawnder cymdeithasol, rydym ni, yn syml, yn gwastraffu doniau a chreadigrwydd, egnïon rhannu llawenydd a pheri newid, wrth i ni eithrio cynifer o weithlu’r celfyddydau oddi ar fyrdau rheoli ac oddi wrth brofiadau celfyddydol fel gwylwyr neu gyfranogwyr.

Rhaid i ni wneud pethau’n wahanol, ac mae’r gwahaniaeth hwnnw’n dechrau fan hyn.”

Mae Er Budd Pawb yn herio’r Cyngor a’i bortffolio i wneud rhagor o gynnydd o ran cydraddoldeb.

Dangosodd cyflwyniadau Adolygiad Buddsoddi 2015 fod yr ymdrechion i hyrwyddo cydraddoldebau ac amrywiaeth ar y cyfan yn siomedig. Dengys ein canlyniadau yn 2017/18 ychydig o newid ond siom yw’r ffaith bod y ffigyrau cyffredinol yn aros yn isel, yn enwedig parthed pobl anabl a phobl dduon, Asiaidd ac ethnig. Mae’n glir bod angen rhagor o waith datblygu â ffocws ledled y sector. Felly parhawn i ofyn i aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru gynhyrchu a chyflwyno [Cynlluniau Gweithredu Strategol ynghylch Cydraddoldeb sydd wedi’u diweddarau](#).

Dylent ddisgrifio’n fanwl gynnydd yn ôl y targedau hyd yn hyn a disgrifio’r gwaith a wnewch yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle yn y celfyddydau. Hoffem yn enwedig glywed am eich cynlluniau i gynyddu amrywiaeth y bobl yr ydych yn ymgysylltu â hwy’n artistiaid, yn gynulleidfa, yn ymgyfranogwyr, yn weithwyr ac yn aelodau o’ch bwrdd gan ganolbwyntio’n benodol ar y ddau grŵp olaf.

Disgwyliwn i'ch Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb gynnwys y canlynol:

- dadansoddiad manwl o'r cynnydd a wnaethoch parthed cydraddoldeb ac amrywiaeth
- disgrifiad o'r meysydd a nodasoch sydd angen eu cryfhau
- targedau penodol a mesuradwy i fynd i'r afael â'r materion hyn
- camau gweithredu penodol parthed amrywiaethu eich bwrdd
- camau gweithredu penodol parthed amrywiaethu eich staff
- datblygu a chodi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith eich staff a'ch bwrdd
- cynlluniau er cynyddu amrywiaeth y gwaith a raglennwch



Cofiwch fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi comisiynu [Arweiniad Cydraddoldebau](#), gan gynnwys pecyn gwybodaeth am ddatblygu cynulleidfa fyddar a fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen [Lle Cyfartal](#) (a gynnis arweiniad i'r ymarfer gorau ar gyfer darparwyr celfyddydau yn benodol ynghylch materion anabled).



Disgwylir i bob aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru roi inni gopi diwygiedig o'i [Gynllun Cydraddoldeb Strategol](#). Dylai eich Bwrdd gytuno ar hwn a dylai ein cyraedd bob blwyddyn erbyn [diwedd Ebrill](#). Nodir yr union ddyddiad yn eich Amserlen Dalu bob blwyddyn.

Disgwyliwn i'r cyrff a ariennir gennym hyrwyddo amgylchedd lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch a lle na ddioddefir aflonyddu rhywiol, bwlio nac unrhyw fath arall o aflonyddu. Er mwyn diogelu staff a chynulleidfaoedd, dylai fod gennych drefn glir a ffurfiol ar gyfer codi a mynd i'r afael â phryderon sy'n parchu cyfrinachedd.

Hefyd disgwyliwn ni i'r holl elusennau rydym ni'n gweithio gyda nhw ddarllen a dilyn canllawiau'r Comisiynydd Elusennau, 'How to report a serious incident in your charity' a gwybod am eu cyfrifoldeb adrodd am ddigwyddiadau difrifol. Rydych chi'n sefydliad partner inni ac mae'n bosibl weithiau fod cyfrifoldeb arnom ni dan y canllawiau yma i adrodd am ddigwyddiadau difrifol mewn sefydliadau partner.

Ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi diwylliannol

Rydym yn llawn angerdd am bwysigrwydd adeiladu Cymru fwy cyfartal. Cydnabyddwn yr effaith negyddol a gaiff tlodi ar fywyd pobl ac rydym am ddymchwel y rhwystrau hirbarhaus sy'n eithrio gormod o bobl rhag cael y buddion gwella bywyd y gall y celfyddydau eu cynnig. Ar eu gorau, gall y celfyddydau drawsnewid pethau - gan gynyddu hyder a sgiliau, datblygu cydlyniant cymuned, codi dyhead, dod â mwyhad ac ystyr i fywyd pobl a rhoi llais i'n cymunedau sy'n wynebu'r her fwyaf. Haedda pob dinesydd yng Nghymru gyfleoedd i brofi celf wych a disgwylw'n i bob sefydliad sy'n cael arian i fod yn rhagweithredol wrth archwilio ffyrdd newydd o gyrraedd ein cymunedau a'n teuluoedd tlotaf ac ymgysylltu â hwy.

Nid awgrymwn y gall y celfyddydau gynnig ateb i bob problem dros nos ond credwn y gallwn, gyda'n gilydd, wneud gwahaniaeth sylweddol.

Byddwch am ystyried sut y gall eich sefydliad wneud ei gyfraniad nodweddiadol ei hun a mynegi buddion eich gweithgareddau o ran mynd i'r afael â thlodi. Gallai'r rhain gynnwys:

- rhaglennu arbrofol a mentrau strategol i ddatblygu cynulleidfa mewn ardaloedd o amddifadedd mawr
- rhaglenni targedol ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, teuluoedd isel eu hincwm a chartrefi heb waith
- arwain gyda phrosiect Cyfuno
- ymchwil a phrosiectau datblygu arloesol
- mentrau partneriaeth anturus eraill

Ymrwymiad i gydweithio â phobl ifainc

Rydym am i holl blant a phobl ifainc Cymru gael y cyfle i fwynhau'r celfyddydau a chael eu hysbrydoli ganddynt a chael hygyrchedd atynt – yn ymgyfranogwyr, yn greawdwyr ifainc ac yn gynulleidfaoedd. Disgwylw'n ichi fuddsoddi mewn rhaglen ddychmygus o waith o blant a phobl ifainc; i feithrin talent ifanc ac archwilio ffyrdd arloesol o estyn eich cyrraedd yn y maes allweddol hwn. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed sut yr ymgysylltwch â phobl ifainc o gefndiroedd ag incwm isel yn eich gwaith yn ogystal â'r rhai sydd ar hyn o bryd yn wynebu rhwystrau hygyrchedd parthed eich gwaith. Disgwylw'n weld eich cynlluniau a'ch targedau parthed plant a phobl ifainc wedi'u hymgorffori yn eich cynllun busnes a byddwn yn monitro sut y cyflawnwch hwy.

Rydym ni'n parhau gyda'n cynllun gweithredu pum mlynedd uchelgeisiol sy'n cynnwys cynnig i bob ysgol yng Nghymru ymgysylltu â'r celfyddydau a'r sector diwylliannol. Disgwylw'n ichi fwyafu posibiliadau addysgiadol a dysgu eich rhaglen artistig gan gynnwys archwilio cyfleoedd i ymgysylltu â **Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau**. Mae rhai sefydliadau wedi mynd yn Asiant Creadigol neu'n meddu ar Ymarferydd Creadigol yng nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, mae eraill yn chwarae rhan weithredol mewn un neu ragor o Rwydweithiau'r Celfyddydau ac Addysg, gan weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion neu sefydliadau celfyddydol eraill i ddatblygu prosiectau cydweithiol arloesol a

chyffrous. Disgwyliwn weld eich cynlluniau parthed Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi'u hymgorffori yn eich cynllun busnes a byddwn yn monitro sut y cyflawnwch yn ôl y rhain.

Ymrwymiad i lywodraethu da...

Mae'r cyhoedd yn iawn i fynnu bod y sefydliadau sy'n cael eu hariannu ganddo yn effeithlon ac yn gost effeithiol. Felly disgwyliwn i'r rhai y gweithiwn gyda hwy gael y pethau sylfaenol yn gywir a sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd gywir a phroffesiynol.

Nid yw cael arian oddi wrth y cyhoedd yn hawl i neb - mae'n rhaid i bawb ennill yr arian hwn.

Mae twf artistig ac economaidd yn annhebyg o ddigwydd yn absenoldeb rheoli cryf a llywodraethu da. Ar ei orau, bydd y Bwrdd yn pennu cyfeiriad strategol y cwmni, a chefnogi a herio'r staff gweithredol wrth iddynt gyflawni nodau'r cwmni a monitro perfformiad ariannol ac artistig.

Sail gadarn i unrhyw sefydliad a reolir yn dda yw llywodraethu da.

“Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant a chadernid unrhyw sefydliad yw Bwrdd cadarn, brwdfrydig a diwyd sy'n cynnwys pob math o arbenigedd.”

Yn ein barn, bydd sefydliad celfyddydol hyderus ac effeithiol yn gwneud y canlynol:

- meddu ar Fwrdd neu bwyllgor rheoli cymwys a phrofiadol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau neu'r sectorau y gweithia ynddynt
- sicrhau bod ei ddogfennau llywodraethu (hynny yw Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni/Cyfansoddiad) yn ddiweddar ac yr adlewyrchant ddeddfwriaeth gyfredol
- sicrhau bod y Bwrdd yn darparu arweiniad, arbenigedd, eiriolaeth, dadleuon, craffu a chefnogaeth i'r staff gweithredol
- sicrhau bod y Bwrdd yn newid ei aelodau yn eithaf aml gyda neb yn aros arno am yn hwy na'i dymor
- gweithredu systemau gwydn i reoli perygl, arian a mecanwaith adrodd. (Dylent gynnwys, yn lleiafswm, gyfrifon rheoli chwarterol a drafodir ac a weithredir gan eich bwrdd a'u hanfon atom pan ofynnwn amdanynt.)
- glynu at safonau'r diwydiant a rhagori arnynt lle bo'n bosibl o ran cyflogi artistiaid ymarferwyr ar eu liwt eu hunain a thalu artistiaid
- cynnal strwythur staff a disgrifiadau swydd sy'n dangos yn glir gyfrifoldeb ar gyfer swyddogaethau allweddol. (Dylid cefnogi hyn drwy system briodol o hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus a gwerthusiad.)
- nodi mesurau i leihau effaith amgylcheddol eich sefydliad a'ch gwaith
- meithrin perthnasau cadarnhaol â rhanddeiliaid a phartneriaid, yn benodol awdurdodau lleol, sefydliadau addysg a grwpiau cymunedol

Ymrwymiad i weithio'n rhyngwladol

Mae diwylliant Cymru yn un o ddiwylliannau'r byd a rhaid inni weithio yn y cyd-destun hwn yn lleol ac yn rhyngwladol. Gall rhagoriaeth celfyddydau Cymru gyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad ein perthynas ddiwylliannol, greadigol ac economaidd â gweddill y byd. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn ffyrdd pwysig i gynnal gyrfâu, meincnodi safon a chyfoethogi ymarfer artistig drwy gydweithio a rhannu syniadau newydd.

Rydym am i sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru ddatblygu a chynyddu cysylltiadau rhyngwladol ystyrion a diddorol. Deallwn hefyd yr amrywia math a lefel yr ymgysylltu rhyngwladol o un sefydliad i un arall.

Mae gwahanol agweddau ar weithgarwch rhyngwladol gan gynnwys:

- Cyflwyno gwaith artistig y tu allan i Brydain.
- Gwahodd artistiaid rhyngwladol i gyflwyno eu gwaith yng Nghymru neu i gyfrannu at brosiect a ddatblygir yng Nghymru.
- Cydweithio ag artistiaid rhyngwladol (yng Nghymru, rywle arall ym Mhrydain neu'r tu allan i Brydain).
- Ymgysylltu â rhwydweithiau, digwyddiadau, cyfleoedd arddangos neu gynadleddau rhyngwladol eu naws. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu teithio y tu allan i Gymru neu Brydain neu wahoddiadau i artistiaid neu gwmnïau rhyngwladol.

Er enghraifft, gallai ymgysylltu fod drwy eu cyfraniad gweithredol at rwydwaith digidol sy'n rhannu'r arfer orau a gwybodaeth rhwng sefydliadau tebyg yn Ewrop neu'n fyd-eang. Neu gallai olygu arddangos eu gwaith mewn digwyddiad Prydeinig sy'n atynnu cynadleddwyr rhyngwladol.

- Atynnu sylw ac adolygiadau gan feirniaid yn rhyngwladol am waith artistig a grëir ac a gyflwynir yng Nghymru.

Dylech gynnwys ymgysylltu rhyngwladol a darparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn yn eich cynllun busnes.

Ymrwymiad i gynllunio busnes effeithiol

Ymgorffora Cynllun Busnes da ethos ac uchelgais eich sefydliad. Dylai gynnwys map o daith eich sefydliad dros gyfnod penodol (fel arfer 3-5 mlynedd).

Mae'n bwysig bod eich cynllun busnes yn ddogfen weithiol, fyw. Dylid adolygu cynnydd yn barhaus gan addasu targedau lle bo angen. Dylai eich Cynllun gyfuno agweddau creadigol a busnes eich sefydliad a dangos sut y trefnwch eich adnoddau i gyflawni eich gweledigaeth artistig.

Yn ein barn, bydd sefydliad celfyddydol hyderus ac effeithiol yn gwneud y canlynol:

- dangos bod gennych reddf ar gyfer busnes
- ennyn hyder yn eich staff, eich Bwrdd, eich Rhanddeiliaid a'ch arianwyr eich bod yn gwybod beth i'w wneud
- cofiwch mai pwrpas cynllun busnes yw ei ysgrifennu ar gyfer eich sefydliad a chan eich sefydliad ac nid oherwydd ei fod yn amod cael yr arian
- dangos eich bod yn hyblyg yn eich gallu i gwrdd â'r her a mynd i'r afael â hi yn ogystal ag â chyfleoedd newydd



Bydd yn rhaid ichi gyflwyno eich **Cynllun Busnes diweddaraf** inni bob blwyddyn yn ystod mis **Hydref**. Nodir yr union ddyddiad yn eich Amserlen Dalu bob blwyddyn.

Ymrwymiad i dalu pobl greadigol broffesiynol gyflog teg...

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl greadigol broffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru yn cael eu talu'n briodol am y gwaith a wnânt.

Gwnewch yn siŵr bod gennych ddatganiad polisi yn eich cynllun busnes sy'n manylu ar sut y cefnogwch bobl greadigol broffesiynol sy'n cydweithio â chi. Dylai gynnwys fanylion am sut y bwriadwch dalu artistiaid yn briodol am y gwaith a wnânt a'u datblygu drwy'ch gwaith.

Ymrwymiad i werth am arian...

O gofio'r swm sylweddol o arian a fuddsoddir yn aelodau ein Portffolio, bydd yn bwysig ichi ddangos bod arian y cyhoedd yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Cefnogwn i'r carn yr angen i gadw craidd sefydlog o arian cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau, hyd yn oed ar adegau o gyni. Ond rhaid cydnabod bod lleihau dibyniaeth sefydliadau ar arian y cyhoedd (yn ganran o incwm cyffredinol) yn ymateb synhwyrol ac ymarferol i'r pwysau ariannol cyffredol. Dylai hyn fod yn amcan penodol yn eich cynlluniau am y flwyddyn nesaf.

Yn ein barn, bydd sefydliad celfyddydol hyderus ac effeithiol yn gwneud y canlynol:

- arddangos ffordd argyhoeddiadol o fynd ati o ran codi arian a chynhyrchu incwm
- gallu mesuro effaith/canlyniadau a ddaw o'i waith â chymorth grant ac adrodd arno
- meddu ar gynlluniau i gydweithio a rhannu adnoddau gyda sefydliadau eraill lle bo'n briodol
- gosod targedau twf incwm tair blynedd gan ddechrau o'r Ebrill nesaf

Ymrwymiad i gasglu a rhannu data

Disgwyliwn aelodau o'n Portffolio Celfyddydol fod yn llythrennog ym maes data. Golyga hyn y dylech ddeall gwerth casglu data dibynadwy, dilyn ymarfer da (a chyfreithlon) wrth ei gasglu a'i reoli a defnyddio tystiolaeth a data i gynyddu'r busnes, y rhaglen a'r cynlluniau datblygu cynulleidfa.

A chwithau'n sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, disgwyliwn ichi rannu data rhwng sefydliadau celfyddydol (yn unol â'r canllawiau perthnasol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth). Amod cael eich ariannu yw hyn.



Arianna Cyngor Celfyddydau Cymru prosiect [Mewnwelediad Cynulleidfa Cymru](#) i ddarparu gwasanaethau dadansoddi data swyddfa docynnau a chael mewnwelediad iddo yng Nghymru. Mae'r system ar gael yn rhad ac am ddim i bob theatr a chanolfan y celfyddydau yng Nghymru i wella casglu, dadansoddi a meincodi data. Rhagwelwn ni y bydd y data y mae'r prosiect yma'n ei gasglu yn cael ei rannu gyda chwmmiau teithiol lle bo'n briodol. Argymhellwn yn gryf ichi ymgyfranogi o'r cynllun hwn.

Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Mae Cymru, ei phobl a'i chymunedau yn ddwyieithog - yn gyfreithiol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru yn unigryw. Drwy'r Gymraeg mae modd inni ddeall a mwynhau ein llenyddiaeth a'n diwylliant cyfoethog. Ac ar hyn mae'n celfyddydau'n ffynnu. Mae'n hiaith a'n celfyddydau wrth wraidd bywyd Cymru.

Mae gan siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yr hawl i archwilio eu diwylliant a'u creadigrwydd drwy eu dewis iaith. Mae'n hymrwymiad i'r egwyddor yma yng [Nghynllun y Gymraeg a'i Gamau Gweithredu](#)

Rhaid ichi wneud y canlynol:

- Marchnata, cyfathrebu a chynnal gwefan sy'n hollol ddwyieithog
- Cael cynlluniau i gynyddu lle'r Gymraeg yn eich gwaith
- Cael cynlluniau i ddatblygu'r Gymraeg ymhlith eich staff a'ch bwrdd a chodi proffil yr iaith yno



Cofiwch fod gennym becyn gwybodaeth: [Datblygu Dwyieithrwydd yn y Celfyddydau](#)



Anfonwch atom gopi o'ch Cynllun Cymraeg wedi'i ddiweddarau erbyn **mis Gorffennaf**. (Mae'r union ddyddiad yn eich amserlen dalu.)

Ymrwymiad i Lesiant a Chynaliadwyedd

Gweledigaeth Llywodraeth yw cael Cymru deg, ffyniannus a hyderus sy'n gwella ansawdd bywyd pobl Cymru ym mhob un o'i chymunedau. Ymgorffora Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru yr egwyddorion hyn a mynna fod cyrff cyhoeddus, megis Cyngor Celfyddydau Cymru, yn gweithio yn y fframwaith a ddiffinnir gan y Ddeddf.

Cydwedda gweledigaeth hollgynhwysol y Ddeddf â'n cred yn safle a swyddogaeth y celfyddydau yn ein cymdeithas gyfoes yng Nghymru. A ninnau'n un o'r sefydliadau a gynhwysir yn y Ddeddf, mae'n rhaid inni yn ôl y gyfraith erbyn hyn sicrhau ein bod, wrth benderfynu, yn cymryd i ystyriaeth y 7 Amcan Llesiant a'r 5 Ffordd o Weithio a gynhwysir yn y Ddeddf ac ystyried effaith y gellid ein gweithredoedd eu cael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn glir na ddylid ystyried y Ddeddf yn un haenen arall o gydymffurfedd a biwrocratiaeth. Eithr dylid ei hystyried yn ffordd hollgynhwysol o fynd ati o ran rhedeg eich sefydliad. Cytunwn ynghylch hyn ac felly ni ofynnwn am gynllun penodol. Ond hoffem weld bod ein sefydliadau yn y Portffolio yn gweithio megis busnesau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac amgylcheddol. Disgwyliwn weld y ffordd hon o fynd ati wedi'i hadlewyrchu yn eich cynlluniau busnes.



O ran ymarfer busnes da, disgwyliwn i bob aelod o'n Portffolio sicrhau bod gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hadlewyrchu yn eu cynlluniau busnes.

Mae newid yn yr hinsawdd a diogelu'r amgylchedd ymhlith materion mwyaf dyrus ein hamser. Mae sefydliadau sy'n deall cynaliadwyedd amgylcheddol yn derbyn bod yn rhaid iddynt gynllunio a darparu eu rhaglenni gwaith ar ôl ystyried effaith amgylcheddol y rhaglenni hynny.

3

Eich swyddogaeth yn gwmni cynhyrchu

Mae cynhyrchu gwaith o safon a gwreiddioldeb yn hanfodol i gynnal rhaglenni amrywiol a bywiog o weithgarwch. Rhydd ein cwmnïau cynhyrchu gyfleoedd i artistiaid, cynhyrchwyr a chrefftwyr i gydweithio er cynhyrchu gwaith o safon sy'n nodweddiadol o Gymru.

Rydym yn llawn angerdd am fuddsoddi mewn gwaith sy'n cyffroi ac ysbrydoli. Mae gennym ddi-ddordeb arbennig yn y newydd a'r cyfoes – yn enwedig lle cais y gwaith hwn gynulleidfaoedd ehangach i ymgysylltu â hwy. Derbyniwn, serch hynny, y gall hyd yn oed y gwaith mwyaf cyfarwydd gynnig rhywbeth newydd i bobl sy'n ei brofi am y tro cyntaf. Cydnebydd rhaglennu doeth hyn a'i gymryd i ystyriaeth ac rydym yn arbennig o awyddus i weld cynhyrchwyr a chyflwynwyr yn datblygu partneriaethau ymarferol sy'n datblygu cynulleidfaoedd.

Chwery cynhyrchwyr rôl arweiniol wrth gyflawni ein strategaeth gelfyddydol, Ysbrydoli...

Creu:

- cynhyrchu a chyflwyno rhaglen flwyddyn o weithgarwch celfyddydol o safon sy'n cyflawni lefelau uchel o fynychu ac ymgysylltu
- cynnig rhaglen waith sy'n nodweddiadol ac amrywiol, datblygu cynulleidfaoedd gyda gweithgarwch nad yw dyblu gweithgarwch gan sefydliadau lleol eraill na chystadlu gydag ef
- bod yn agored a hael, arddangos arweinyddiaeth ddiwylliannol drwy ffordd wirioneddol gydweithiol o fynd ati o ran rhannu adnoddau ac arbenigedd mewn ffordd sy'n meithrin talent ac artistiaid Cymru
- cynhyrchu/cydgynyrchu gwaith newydd lle bo hyn yn briodol a fforddiadwy
- arddangos ffordd weithredol o fynd ati o ran datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer gweithgarwch celfyddydol Cymraeg

Cyrraedd:

- cydweithio'n agos â lleoliadau a hyrwyddwyr i annog ffordd cydweithiol o ddatblygu cynulleidfa, defnyddio ymchwil a gwybodaeth fusnes briodol i gyflawni datblygiad effeithiol a chryf o ran y gynulleidfa
- datblygu rhaglenni gwaith sy'n diwallu amcanion Cydraddoldebau
- ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth o safon ardderchog mewn ffordd effeithlon a chan ddarparu gwerth am arian

Cynnal:

- Yn ariannol gynaliadwy, gyda'r gwytnwch, yr arbenigedd, yr arian a'r gallu i weithio'n sefydliad hyfyw a diogel
gweithredu safon uchel o lywodraethu ac arweinyddiaeth gan y staff, sefydliadau sy'n cael eu rheoli'n dda ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a hwythau'n cael arian y cyhoedd

4

Monitro perfformiad: y sylfeini

Monitro ariannol

Atodir eich **amserlen dalu** unigryw i'ch Cytundeb Ariannu a dengys bob darn o wybodaeth y bydd arnom ei angen er mwyn gwneud y canlynol:

- sicrhau eich bod yn rheoli'r rhan hon o'ch busnes yn effeithiol
- sicrhau ein harianwyr fod y portffolio'n gweithio – bydd hyn yn gymorth inni wrth eiriol am barhau i ariannu celfyddydau Cymru
- rhyddhau eich taliadau



Manylir ar yr hyn a ddisgwyliwn yn y ddogfen, [Monitro Busnes Portffolio Celfyddydol Cymru](#).

Mae'n bwysig y cawn wybodaeth oddi wrthyich yn brydlon. Nodir dyddiadau cau cyflwyno yn eich amserlen dalu unigryw.

Mae darparu gwybodaeth pan fo'n ddyledus yn hanfodol os ydym i roi gwybodaeth yn brydlon i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Mae arnom angen cael data pawb cyn gallu ei goladu a'i ddadansoddi er mwyn eiriol drosoch. Rhaid i'n swyddogion ei wirio hefyd cyn rhyddhau eich taliad.



Os ydych o'r farn y gellwch roi'r un wybodaeth inni mewn fformat ychydig yn wahanol, rhowch wybod a thrafodwn yr opsiwn hwnnw gyda chi. Nid ydym am ichi wneud gwaith ychwanegol i'w fformadu os nad oes angen ei wneud.



Os hoffech gael cymorth arall, neu os oes gan eich sefydliad anghenion hyfforddi penodol, rhowch wybod inni. Mae'n bosibl y gallwn gynnwys y pwnc mewn sesiwn yn ein Rhaglen Ddatblygu i Bortffolio Celfyddydol Cymru yn y dyfodol.

Gwerthuso Ansawdd

Byddwn ni'n canolbwyntio ein gwerthusiad o waith artistig mewn Trosolwg Celfyddydol blynyddol. Eich swyddog arweiniol fydd yn gwneud hyn a chewch chi weld y canlyniadau. Bydd y cyfarfod Cytundeb Ariannu yn gyfle i ystyried rhaglen waith y dyfodol a'ch uchelgais rhaglenni. Bydd hyn yn ei dro'n gallu darparu ffocws i'r swyddog olrhain gwaith y sefydliad yn y flwyddyn wedyn tan y Trosolwg nesaf.

Rhan o'r Trosolwg fydd ein profiad o'r gwaith a disgrifiadau gan bobl eraill o'r gwaith ar draws holl lwyfannau'r cyfryngau. Dylech chi dynnu sylw eich swyddog at unrhyw adborth beirniadol am eich gwaith sydd gennych (er enghraifft, adolygiadau, arolygon cynulleidfaol ar ôl y digwyddiad) i fwydo'r Trosolwg Celfyddydol. Rhan arall ohono fydd ein trafodaeth fewnol ymhlith y swyddogion ac yn ein Grwpiau Datblygu Sector. Mae'r Trosolwg Celfyddydol yn waith un swyddog (eich un arweiniol) ond bydd yn tynnu ar lawer o ffynonellau eraill gan gynnwys rhai mewnol. Yn ei ffurf derfynol, hon fydd barn y Cyngor. Yn 2018/19 bydd y Trosolwg Celfyddydol yn cael ei llenwi erbyn y pryd i lofnodi'r Cytundebau Ariannu i 2019/20. Yn 2019/20 byddwn ni'n atodi'r Trosolwg Celfyddydol i'n hadborth ar eich cynllun busnes.

Rydym ni'n datblygu ffordd o wneud gwaith ymgyfranogol sy'n olrhain datblygiad ac effaith y gwaith o ran ymgyfranogwyr. Bydd y gwaith yma'n cynnwys swyddogion a'n cydweithwyr celfyddydol newydd wrth ddatblygu'r trosolwg ar y gwaith ymgyfranogol yn enwedig mewn sefydliadau celfyddydol cymunedol.

Cyd-destun yw pob dim. Felly wrth ddod at y Trosolwg ystyriwn uchelgais a bwriad creadigol, darpariaeth ac ymateb y ghyndleidfia ac awgrymwn wrthyich unrhyw bwyntiau dysgu posibl.

Ar brydiau rydym ni'n cadw'r hawl i anfon ein cydweithwyr celfyddydol i adolygu rhywfaint o'ch gwaith. Bydd eich swyddog yn dweud wrthyich pryd y bydd hyn yn digwydd. Fel arall byddwn ni'n gwerthuso'r safon artistig yn y Trosolwg Celfyddydol.

Adroddiad 'Radar'

Mae adolygu perfformiad ac asesu perygl posibl wrth wraidd monitro Portffolio Celfyddydol Cymru. Adroddiad Radar yw'r enw ar ein dogfen fewnol a ystyria bob aelod unigol o Portffolio Celfyddydol Cymru gan roi i bob un sgôr berygl.

Mae'r sgorau hyn yn ein galluogi i gytuno ar lefel y monitro, y gefnogaeth a'r canllawiau sy'n briodol. Fel arfer adolygir y sgorau'n chwarterol a rhennir hwy â'n Cyngor a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Porthir hwy gan y canlynol:

- ein hadolygiad o'r wybodaeth ariannol a gawn yn rhan o'n monitro busnes arferol
- Cyfarfodydd Cytundeb Ariannu
- ein hadolygiad o'ch Cynllun Busnes
- cyswllt rheolaidd â swyddog
- ein presenoldeb yng nghyfarfodydd eich Bwrdd
- monitro prosiectau cyfalaf a Loteri (os yw'n gymwys)
- Gwerthuso Ansawdd
- gwybodaeth o'n gwaith arolygu

Cofiwch nad yw bod yn berygl uchel yn golygu o reidrwydd y teimlwn eich bod yn perfformio'n wael neu'n methu ag ymateb i amgylchiadau. Weithiau mae'n bwysig mentro, arloesi neu symud o'ch mangre diogel, arferol. Cyn belled â bod eich mentrau'n bwylllog, byddwn yn gefnogol.

Arolwg o'r Portffolio

Pob chwe mis (yn unol â'r flwyddyn ariannol) yr ymgymher Tîm Ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru ag arolwg o'r sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru. Casgl yr arolwg wybodaeth am weithgarwch y sefydliadau gan gynnwys y digwyddiadau a gynhaliant, y mynychuadau i'r digwyddiadau hynny a gwybodaeth am eu cyflogaeth.

Mae llenwi'r Arolwg yn amod o'r arian a gaiff sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru. Cawn dystiolaeth allweddol o'r arolwg sy'n fodd inni gyflwyno'r achos ariannu gerbron Llywodraeth Cymru. Mae'r un mor bwysig inni allu cyfrifyddu am ddefnydd ein harian ac archwilir yn drylwyr iawn ein cofnodion yn y maes hwn. Bydd peidio â llenwi'r arolwg, neu gyflwyno data anghywir, yn tanseilio ein gallu i eiriol ac ymgyrchu dros gelfyddydau Cymru a gallai hefyd effeithio ar gymhwysedd y sefydliadau i gael arian oddi wrthym yn y dyfodol.

Mae dau ddyddiad cau yn eich amserlen dalu unigryw, un am bob cyfnod adrodd o chwe mis.

5

Rhaid inni siarad...

Ar adegau prin, rydym yn gorfod tynnu arian yn ôl oddi wrth sefydliad. Yn amlwg ddigon, ceisiwn osgoi gwneud hyn heb reswm da ond gellid ei sbarduno gan ystod o amgylchiadau gan gynnwys, yn debycaf, y canlynol:

1. Pryderwn am safon berfformio un neu ragor o'r canlynol:

- Gweithgarwch artistig
- Llywodraethu a Gweinyddu
- Cyllid a Chyllidebu

Yn yr amgylchiadau hyn fel arfer, y cam terfynol yn ein monitro ac adolygu bydd y penderfyniad i dynnu arian.

2. Fe'ch ariennir i ddarparu gwaith sy'n cyflawni ein blaenoriaethau ond newidiasoch natur eich gwaith ac nid ystyrir eich gwaith newydd yn flaenoriaeth gennym.
3. Ni ellwch ddarparu'r rhaglen weithgarwch y cytunwyd yn ei chylch ac a ddisgrifir yn eich Cytundeb Ariannu yn effeithiol gyda'ch lefelau cyfredol o adnoddau.
4. Mynna newidiadau yn ein strategaeth neu'n blaenoriaethau strategol fod yn rhaid inni dynnu, lleihau a/neu ailddyrannu arian. Byddai'r fath benderfyniadau fel arfer yn digwydd yn y cam olaf o adolygiad strategol.
5. Lle y darganfuwyd twyll neu gamymddwyn difrifol neu fod digwyddiadau difrifol wedi digwydd.
6. Lle y penderfynasoch roi'r gorau i fasnachu neu eich bod yn nwylo'r gweinyddwyr neu wedi mynd yn fethdalwr;
7. Mynna ffactorau allanol fod tynnu arian yn angenrheidiol. Gallai'r penderfyniad i dynnu arian ddigwydd oherwydd ffactorau na allem eu rheoli megis lleihad yn ein harian neu gyfyngiad arno.

Gweithredwn yn wahanol mewn gwahanol sefyllfaoedd. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio â sefydliadau i reoli'r prosesau hyn ac fel arfer ceisiwn roi rhybudd o 12 mis am ein bwriad i dynnu eich arian. Gellid estyn neu gwtogi'r cyfnod hwn gan gymryd i ystyriaeth y rheswm am dynnu'r arian.

6

Yr hyn gallwch ei ddisgwyl gennym

- Y rhyddid artistig ar gyfer eich uchelgais rhaglennu yng nghwmpas cyffredinol y blaenoriaethau a'r polisiâu strategol a gytunasom.
- Gwasanaeth prydlon, effeithlon a chwrtais gan bob un o'n staff.
- Presenoldeb eich swyddog arweiniol mewn o leiaf ddau gyfarfod bwrdd/pwyllgor rheoli'r flwyddyn. (Ni weithreda'r swyddog yn gyfarwyddwr cysgodol, ond cynnig y cyngor gorau ar ymarfer neu ar ein canllawiau polisi fel sy'n briodol. Daw hefyd â chydweithwyr lle bo'n briodol.)
- Trin eich gwybodaeth fusnes gyfrinachol â pharch a gofal dyledus ond wrth gadw at ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Proseswn unrhyw wybodaeth bersonol a gawn gennych yn unol â Deddf Diogelu Data. Ni ddatgelwn wybodaeth i drydydd partïon heb eich cydsyniad cyn belled bod peidio â'i datgelu'n gyson â'n cyfrifoldebau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- Hygyrchedd i'n Rhaglen Ddatblygu, sesiynau hyfforddi a briffio eraill a chyhoeddiadau am faterion perthnasol.
- Talu eich rhandaliadau grant yn brydlon - cyn belled ein bod wedi cael y wybodaeth gennych y gofynasom amdani a'n bod wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru.
- Eiriol yn genedlaethol dros eich gwaith, eich sector a chelfyddydau Cymru. Cynnwys hyn gyhoeddi ystadegau a thueddiadau o arolwg chwe misol y Portffolio.
- Barn onest a gwybodus am eich gwaith artistig a'ch sefydliad. Darparwn gyngor, sylwadau ac adborth arall fel sy'n briodol a gwrandawn ar eich adborth chi hefyd. Rhoddwn farn ysgrifenedig am eich rhaglen artistig sy'n seiliedig ar adroddiadau ffurfiol a chyngor arall ein swyddogion
- Os, ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod eich grant, teimlwn nad yw agwedd ar eich gwaith yn diwallu amodau'r Cytundeb Ariannu neu Amodau Safonol y Grant a amgaewyd gyda'ch llythyr cynnig grant, rhoddwn wybod ichi'n ysgrifenedig. Amlinella'n Polisi Rheoli Sefydliadau a Ariennir y broses a ddilynir mewn achosion o'r fath.